CARDIFF
CAERDYDD

**County Hall**
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

**Neuadd y Sir**
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088

Dear Parent/Carer

In Cardiff we have high ambitions for all pupils and want them to achieve success and realise their full potential. Excellent attendance and punctuality are crucial to achieving this. Recently, there has been some attention in the media about the introduction of Fixed Penalty Notices for non school attendance. Fixed Penalty Notice legislation has been widely used in England for a number of years and has now been introduced in Wales.

The Welsh Government is committed to addressing the national concern for poor school attendance and all local authorities across Wales are expected to use Fixed Penalty Notices to assist them in the drive to improve attendance and prevent unnecessary absence from school. It has been agreed that Fixed Penalty Notices will be used in Cardiff from **January 2015** in the following circumstances:

- Where there is a minimum of 10 unauthorised sessions (5 school days) in the current term (these do not need to be consecutive);
- Where pupils persistently arrive after the close of the registration period i.e. more than 10 sessions in the current term;
- For a period of absence from school due to a holiday that was not authorised by school;
- Where a pupil has regularly come to the attention of the police during school hours and is absent from school without an acceptable reason.

Regular attendance is important, not just because the law requires it, but also because it is the best way of ensuring children get the most out of school. You need to make sure that your child attends every day and is on time. If your child is absent for any reason, please contact the school to explain the absence. Should school staff have reason to doubt that an explanation offered about a particular absence is not genuine or a reason has not been given at all, then the absence will be treated as unauthorised.

It is a timely to remind you of the strong link between attendance rates and examination success. Research shows that missing 17 days of school a year (an attendance rate of 91%) can result in a drop of a GCSE grade across all subjects. Full attendance at school also enables young people to maintain positive friendships, promotes wellbeing and provides them with good grounding for the world of work. Excellent attendance is key to pupil success.

Every school has access to a School Attendance Officer and an allocated Education Welfare Officer who will help and support you with any difficulties you may have with your child's attendance at school. Please contact your child's school in the first instance. Alternatively, contact the Education Welfare Service Office on 029 2062 9800 or e-mail ewsreferrals@cardiff.gov.uk

Further information and marketing materials on the introduction of Fixed Penalty Notice legislation will be available shortly. If you have any further queries in the meantime, please contact the Education Welfare Service.

Yours faithfully

Nick Batchelar
Director of Education and Lifelong Learning

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088

Annwyl Riant / Gofalwr

Yng Nghaerdydd mae gennym ddyheadau uchel dros ein disgyblion ac rydym am iddynt lwyddo a chyflawni eu potensial. Mae lefel ragorol o bresenoldeb a phrydlondeb yn hollbwysig o ran cyflawni hyn. Yn ddiweddar, cafwyd rhywfaint o sylw yn y cyfryngau ynglŷn â chyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am fod yn absennol o'r ysgol. Mae deddfwriaeth Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi cael ei defnyddio'n helaeth yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd, ac mae nawr yn weithredol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r pryderon cenedlaethol o ran lefelau presenoldeb gwael mewn ysgolion, a disgwylir i bob awdurdod lleol ledled Cymru ddefnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig i'w cynorthwyo i wella presenoldeb ac atal absenoldebau diangen o'r ysgol. Cytunwyd y caiff Hysbysiadau Cosb Benodedig eu defnyddio yng Nghaerdydd o fis Ionawr 2015 dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo o leiaf 10 'sesiwn' heb awdurdod (sef 5 diwrnod ysgol) yn ystod y tymor presennol (nid oes yn rhaid iddynt fod yn olynol);
- Pan fo disgyblion yn cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben yn rheolaidd h.y. mwy na 10 sesiwn yn ystod y tymor presennol;
- Cyfnod o absenoldeb o'r ysgol oherwydd gwyliau nas awdurdodwyd gan yr ysgol;
- Pan fo disgybl wedi dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn bwysig, nid dim ond am fod y gyfraith yn mynnu hynny ond hefyd gan mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar yr ysgol. Rhaid i chi sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd ac yn cyrraedd yn brydlon. Os yw'ch plentyn yn absennol am unrhyw reswm, cysylltwch â'r ysgol i esbonio pam. Pe bai rheswm gan staff yr ysgol i amau nad yw'r esboniad a gynigiwyd am achos penodol o absenoldeb yn ddilys, neu oni roddwyd rheswm o gwbl, yna caiff yr absenoldeb ei drin fel un heb awdurdod.

Dyma gyfle amserol i'ch atgoffa am y cyswllt amlwg rhwng cyfraddau presenoldeb a llwyddiant mewn arholiadau. Dengys ymchwil fod methu 17 diwrnod o ysgol y flwyddyn (cyfradd bresenoldeb o 91%) yn gallu arwain at ostwng un radd mewn arholiadau TGAU ymhob pwnc. Mae presenoldeb llawn yn yr ysgol hefyd yn galluogi pobl ifanc i gynnal cyfeillgarwch cadarnhaol, yn hybu lles ac yn ffordd dda o'u paratoi ar gyfer byd gwaith. Mae presenoldeb rhagorol yn allweddol o ran llwyddiant disgyblion.

Mae gan bob ysgol Swyddog Presenoldeb Ysgol a Swyddog Lles Addysg a fydd yn eich helpu a'ch cynorthwyo pan fo anawsterau yn codi o ran presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol. Cysylltwch ag ysgol eich plentyn yn y lle cyntaf. Fel arall, cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Lles Addysg ar 02920 629800 neu anfonwch e-bost at ewsreferrals@caerdydd.gov.uk

Bydd rhagor o wybodaeth a deunydd marchnata am gyflwyno'r ddeddfwriaeth Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gael yn fuan. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg.

Yn gywir

Nick Batchelar
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd